Senedd Cymru

**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**

# Cyfnod 2: Y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru)

## Diben

**1.** Cytuno i amrywio trefn y broses ystyried ar gyfer trafodion Cyfnod 2 ar y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru).

## Trefn y broses ystyried

**2.** Trefn y broses ystyried yw'r modd y mae adrannau ac atodlenni'r Bil wedi'u trefnu at ddibenion gwaredu'r gwelliannau. Mae Rheolau Sefydlog yn darparu ar gyfer trefn ragosodedig ar gyfer y broses hon. Dyma'r drefn y mae'r adrannau a'r atodlenni'n ymddangos yn y Bil. Gall y Pwyllgor amrywio trefn y broses ystyried os yw'n dymuno gwneud hynny.

**3.** Mae'r Bil yn cynnwys 49 o Adrannau a dwy Atodlen. Awgrymir bod y Pwyllgor yn amrywio'r drefn ystyried fel bod yr Atodlenni yn cael eu hystyried yn syth ar ôl yr Adrannau sy'n eu cyflwyno. Byddai hyn yn golygu dilyn y drefn ystyried a ganlyn: Adrannau 1 i 22; Atodlen 1; Adrannau 23 i 24; Atodlen 2; Adrannau 25 i 49; Teitl Hir.

Cyngor

Gofynnir i'r Aelodau ystyried trefn arfaethedig y broses ystyried a chytuno arni.